

Atodiad 1

Cyfarfod	Y CYNGOR
Dyddiad	2 Mawrth 2017
Pwnc	Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Archwilio
Awdur	Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid Iwan Evans, Swyddog Monitro
Aelod Cabinet	Cyng Peredur Jenkins

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adrannau 81 i 87, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Pwyllgor Archwilio i arolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol.

2. Mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor a gellir cael hyd at draean o'r aelodaeth yn aelodau lleyg. Bydd gan unrhyw aelod lleyg hawl pleidleisio a bydd yn cael cyflog aelod cyfetholedig o £198 y dydd. Daw tymor yr aelod presenol i ben yn Mehefin 2017.

3. Nid oes trefn benodol wedi ei dynodi ar gyfer cyfethol yr aelod lleyg i'r pwyllgor. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid hysbysebu yn gyhoeddus. Maent hefyd yn awgrymu y dylai'r unigolion a benodir fod yn annibynnol o'r cyngor, heb unrhyw gyswilt busnes ag o, ac yn meddu ar wybodaeth o lywodraeth leol. Awgrymir na ddylid penodi unigolion y mae eu lliwiau gwleidyddol yn hysbys. Mae'r ddogfen atodol yn cynnwys meini prawf ar gyfer penodi yr aelod lleyg a fabwysiadwyd ym Mai 2012.

4. Argymhellir hysbysebu yn y wasg leol/ranbarthol am ddatganiadau o ddiddordeb gan rai sy'n dymuno gwasanaethu fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio. Argymhellir hefyd y dylai panel sydd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r aelod Cabinet Adnoddau wedi eu cynghori gan y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, a fydd yn penodi'r unigolyn i wasanaethu ar y pwyllgor am dymor o 4 mlynedd.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r drefn benodi a argymhellir yn yr adroddiad

Penodiad aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio

Meini prawf

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio i

- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol y Cyngor
- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli risg yr awdurdod, ei reolaeth fewnol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol
- Arolygu trefniadau archwilio ac adolygu datganiadau cyllidol yr awdurdod

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr gwrdd a'r meini prawf canlynol:

- Gallu dangos dealltwriaeth o werth y swyddogaeth archwilio
- Gallu dangos gwybodaeth o sut mae llywodraeth leol yn gweithredu
- Gallu dangos annibyniaeth meddwl ac agweddau diduedd
- Gallu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau
- Gallu darparu dau dystlythyr

Ni ellir penodi unrhyw unigolyn sydd a chysylltad busnes â'r Cyngor nac sydd a chysylltiadau â phlaid wleidyddol

Ysytrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfangwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.